

## **PRIFFYRDD, CYMRU**

### **201- Rhif**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 a  
DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL  
GWEINIDOGION CYMRU (TRAFFORDD  
YR M4 (CYFFORDD 23 (MAN I'R  
DWYRAIN O FAGWYR) I FAN I'R  
GORLLEWIN O GYFFORDD 29 (CAS-  
BACH) A FFYRDD CYSYLLTU) A  
THRAFFORDD YR M48 (FFORDD  
GYSYLLTU CYFFORDD 23 (MAN I'R  
DWYRAIN O FAGWYR)) A  
CHEFNFFORDD LLUNDAIN I  
ABERGWAUN (MAN I'R DWYRAIN O  
FAGWYR I GAS-BACH)) 201-**

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir yn y Gorchymyn hwn “yr awdurdod caffael”) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980<sup>(1)</sup> ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981<sup>(2)</sup> a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi, a phob pŵer galluogi arall<sup>(3)</sup>, drwy hyn wedi ei awdurdodi i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros dir a ddisgrifir ym mharagraff 2 er mwyn:

- (a) adeiladu ffyrdd arbennig rhwng pwynt ar y Draffordd ym Magwyr yng Nghymuned Magwyr gyda Gwndy, yn Sir Fynwy a phwynt ar y Draffordd yng Nghas-bach, yng Nghymuned Maerun, yn Ninas Casnewydd, yn unol â'r Cynllun;
- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd yn y Cymunedau a enwyd, yn y Siroedd a enwyd, yn unol â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl;
- (c) gwella'r Draffordd, yn y Cymunedau a enwyd, yn y Siroedd a enwyd;
- (d) adeiladu priffyrdd a ffyrdd ymuno ac

ymadael newydd ym Magwyr yn Sir Fynwy a Chas-bach a Chaerllion yn Ninas Casnewydd, yn unol â'r Gorchymyn Llinell;

- (e) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r ffyrdd arbennig ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllir uchod;
- (f) darparu adeiladau a chyfleusterau i'w defnyddio mewn cysylltiad ag adeiladu, defnyddio a chynnal ffyrdd arbennig a chefnffyrdd;
- (g) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r cyfryw waith gwella priffyrdd a gwneud y gwaith arall a grybwyllir uchod; ac
- (h) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar eu hamgylchoedd, a achosir gan fodolaeth unrhyw rai o'r priffyrdd y cynigir eu hadeiladu neu eu gwella, neu gan y defnydd ohonynt.

Mae copiâu o'r Cynllun, y Gorchymyn Llinell a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r planiau cysylltiedig wedi eu hadneuo ynghyd â'r Gorchymyn hwn a'r map y cyfeirir ato ym mharagraff 2.

2. (1) Y tir yr awdurdodwyd ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn ac a amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ac ymyl coch, lliw brown ac ymyl coch a lliw gwyrdd ac ymyl coch ar y map a baratowyd ar ffurf ddyblyg ac a farciwyd "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach)) 201-".

(2) Disgrifir yr hawliau newydd sydd i'w prynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yn Atodlen 1, a dangosir y tir â lliw glas ac ymyl coch ar y map a enwyd.

3. Ac eithrio o ran y darnau tir a ddangosir fel plotiau 1/3p, 2/1s, 2/2c, 2/16c, 3/1a, 15/11a, 15/12a, 15/9m, 15/11d, 17/1, 17/1a, 17/1k, 17/5b, 17/5c, 17/5d, 17/5e, 17/5m, 17/5t, 17/6a, 17/6b, 17/5r a 17/9a ar y map, ymgorfforir drwy hyn Rannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol, sef bod rhaid dehongli cyfeiriadau at "the undertaking" yn y Rhannau hynny o'r Atodlen honno fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodir ei brynu ac at unrhyw adeiladau neu waith a adeiladwyd neu sydd i'w hadeiladu arno.

4. At ddibenion y darpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, i'r graddau y'u hymgorfforir yn y Gorchymyn hwn, y pellter a ragnodir mewn perthynas ag unrhyw wythïen o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir sy'n cyffinio â'r gwaith a adeileddir ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn, fydd y pellter ochrol o'r gwaith hwnnw ar bob ochr i'r gwaith hwnnw ag sy'n gymesur, ar bob pwynt ar hyd y gwaith hwnnw, â hanner dyfnder yr wythïen o dan wyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw, neu 37 metr, pa un bynnag fo'r mwyaf.

5. (1) (a) Yn y paragraff hwn, ystyr "tir y gorchymyn" (*"the order land"*) yw'r tir sy'n dwyn y rhifau 7/3, 7/3d, 7/3e, 7/3f, 7/3g, 7/3h, 15/12, 15/12a a 15/12b yn Atodlen 1 ac ystyr "y tir cyfnewid" (*"the exchange land"*) yw'r tir cyfnewid a ddisgrifir yn Atodlen 2.

(b) Ar gyfer plot o'r tir cyfnewid, dangosir ei blot cyfatebol o dir y gorchymyn at ddibenion y paragraff hwn yng ngholofn olaf Tabl 2 yn Atodlen 2.

(2) O ran pob plot o dir y gorchymyn a'r plot cyfatebol o'r tir cyfnewid, o'r diweddaraf o'r dyddiadau a grybwyllir yn is-baragraff (3) o'r paragraff hwn ymlaen, bydd y plot cyfatebol o'r

tir cyfnewid wedi ei freinio yn y personau yr oedd y plot hwnnw o dir y gorchymyn wedi ei freinio ynddynt yn union cyn ei freinio yn yr awdurdod caffael, yn ddarostyngedig i'r hawliau, yr ymddiriedolaethau a'r nodweddion cyffelyb a oedd ynghlwm wrth y plot hwnnw o dir y gorchymyn; ac ar hynny, bydd y plot hwnnw o dir y gorchymyn yn rhydd rhag pob hawl, ymddiriedolaeth a nodwedd yr oedd yn ddarostyngedig iddynt cyn hynny.

(3) Y dyddiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2) o'r paragraff hwn yw'r dyddiad—

- (i) y daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol;
- (ii) y breinir y plot o dir y gorchymyn yn yr awdurdod caffael;
- (iii) y breinir y plot cyfatebol o'r tir cyfnewid yn yr awdurdod caffael.

6. (1) Yn y paragraff hwn, ystyr "yr hawliau" (*"the rights"*) yw'r hawliau newydd a ddisgrifir ac sy'n dwyn y rhifau 7/2p, 7/3b, 7/3c, 7/3df ac 8/2 yn Atodlen 1, ystyr "tir yr hawliau" (*"the rights land"*) yw'r tir y mae'r hawliau hynny i'w caffael drosto ac ystyr "y tir ychwanegol" (*"the additional land"*) yw'r tir ychwanegol a ddisgrifir yn Atodlen 2.

(2) O'r diweddaraf o'r dyddiadau a grybwyllir yn is-baragraff (3) o'r paragraff hwn ymlaen, bydd y tir ychwanegol wedi ei freinio yn y personau yr oedd tir yr hawliau wedi ei freinio ynddynt ac yn ddarostyngedig i'r hawliau, yr ymddiriedolaethau a'r nodweddion cyffelyb sydd ynghlwm wrth dir yr hawliau heblaw am y Gorchymyn hwn; ac ar hynny, bydd tir yr hawliau yn rhydd rhag pob hawl, ymddiriedolaeth a nodwedd yr oedd yn ddarostyngedig iddynt cyn hynny, i'r graddau y byddai parhau â hwy yn anghyson ag arfer yr hawliau.

(3) Y dyddiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2) o'r paragraff hwn yw'r dyddiad—

- (i) y daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol;
- (ii) y breinir yr hawliau yn y plot o dir yr hawliau yn yr awdurdod caffael;
- (iii) y breinir y plot cyfatebol o'r tir ychwanegol yn yr awdurdod caffael.

## 7. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y Cynllun” (“*the Scheme*”) yw “Cynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i’r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i’r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i’r Dwyrain o Fagwyr)) 201-”;

ystyr “y Draffordd” (“*the Motorway*”) yw Traffordd Llundain i Dde Cymru (M4);

ystyr “y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl” (“*the Side Roads Order*”) yw “Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i’r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i’r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i’r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i’r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach) (Ffyrdd Ymyl) 201-”;

ystyr “y Gorchymyn Llinell” (“*the Line Order*”) yw “Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i’r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach) 201-”;

ystyr “y map” (“*the map*”) yw’r map a farciwyd “Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i’r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i’r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i’r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i’r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach)) 201-” a lofnodwyd gan un o swyddogion yr awdurdod caffael.

8. Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i’r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i’r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i’r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i’r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach)) 201-.

Llofnodwyd gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.

*R Morgan*

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

Dyddiedig

201-

- (1) 1980 p.66.
- (2) 1981 p.67.
- (3) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL  
GWEINIDOGION CYMRU (TRAFFORDD YR  
M4 (CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O  
FAGWYR) I FAN I'R GORLLEWIN O  
GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A FFYRDD  
CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR M48  
(FFORDD GYSYLLTU CYFFORDD 23 (MAN I'R  
DWYRAIN O FAGWYR)) A CHEFNFFORDD  
LLUNDAIN I ABERGWAUN (MAN I'R  
DWYRAIN O FAGWYR I GAS-BACH)) 201-**

**PRYNU TIR A HAWLIAU NEWYDD YN  
ORFODOL RHWNG MAGWYR A  
CHAS-BACH**

Mae Gweinidogion Cymru wedi paratoi, ar ffurf drafft, Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach)) 201-, o dan adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981, a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi. Mae Gweinidogion Cymru ar fin gwneud y Gorchymyn

hwn, ac os gwneir ef, bydd y Gorchymyn yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd a ddisgrifir isod er mwyn:-

- (a) adeiladu ffyrdd arbennig rhwng pwynt ar y Draffordd, ym Magwyr yng Nghymuned Magwyr gyda Gwndy, yn Sir Fynwy a phwynt ar y Draffordd, yng Nghas-bach, yng Nghymuned Maerun, yn Ninas Casnewydd, yn unol â Chynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) 201-;
- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangroedd rhwng Magwyr a Chas-bach yn y Cymunedau a enwyd, yn y Siroedd a enwyd, yn unol â Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Cefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach) (Ffyrdd Ymyl) 201-;
- (c) gwella'r Draffordd rhwng Magwyr a Chas-bach, yn y Cymunedau a enwyd, yn y Siroedd a enwyd;
- (d) adeiladu priffyrdd a ffyrdd ymuno ac ymadael newydd ym Magwyr yn Sir Fynwy a Chas-bach a Chaerllion yn Ninas Casnewydd, yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach) 201- ;
- (e) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r ffyrdd arbennig ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllir uchod;
- (f) darparu adeiladau a chyfleusterau i'w defnyddio mewn cysylltiad ag adeiladu, defnyddio a chynnal ffyrdd arbennig a chefnffyrdd;
- (g) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r cyfryw waith gwella priffyrdd a gwneud y

gwaith arall a grybwyllir uchod; ac

- (h) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar eu hamgylchoedd, a achosir gan fodolaeth unrhyw rai o'r priffyrdd y cynigir eu hadeiladu a'u gwella, neu gan y defnydd ohonynt.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft ac o'r map cysylltiedig ar bob adeg resymol rhwng 24 Mawrth 2016 a 4 Mai 2016 yn y manau canlynol;

- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
- Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Radur, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 1GA
- Cyngor Sir Fynwy, Tŷ Arloesi, Parc Busnes Cymru 1, Magwyr, Sir Fynwy NP26 3DG
- Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Godfrey Rd, Casnewydd NP20 4UR
- Llyfrgell Ganolog Casnewydd, John Frost Square, Casnewydd NP20 1PA

Rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn drafft mewn ysgrifen a'i gyfeirio at y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ cyn 4 Mai 2016 a dylai nodi enw'r Gorchymyn, y cyfeirnod qA1174612, sail y gwrthwynebiad a chyfeiriad y gwrthwynebydd a'i fuddiannau yn y tir. Os byddwch yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu wneud sylwadau, bydd y tîm prosiect yn ystyried eich gohebiaeth ac fe all y bydd angen inni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill, caniateir inni drosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Er hynny, ni fyddwn yn datgelu'ch manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi i ymdrin â materion yr ydych wedi tynnu'n sylw atynt. Pan fydd Cynllun Cefnffordd yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), bydd pob gohebiaeth yn cael ei chopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn Llyfrgell yr YC a bydd ar gael i'r cyhoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth Ddrafft', 'Offerynnau Anstatudol Drafft', 'Gorchmynion Ffyrdd Ymyl a Phrynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd').

**Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print brasach oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth**



**Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**DISGRIFIAD O'R TIR AC O'R HAWLIAU  
NEWYDD**

SYLWER: Dynodir y tir a gynhwysir ym mhob eitem isod ar y map y cyfeirir ato yn y Gorchymyn drafft gan ddefnyddio'r rhif neu'r rhifau sydd gyferbyn â'r eitem honno isod.

**YNG NGHYMUNEDAU LLANFIHANGEL-Y-FEDW a MAERUN YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o Draffordd yr M4, A48(M), ffyrdd ymuno ac ymadael yr A48(M), lleiniau ymyl ac argloddiau, coetir hynafol, llwybr, trac, trosbontydd, arllwysfa cwlferf, rhan o lwybr troed cyhoeddus 400/10, tir prysgwydd a phwll i'r dwyrain o Druidstone Road ac i'r gogledd o Wentloog Rise. (Plot 1/1).

**YNG NGHYMUNED LLANFIHANGEL-Y-FEDW  
YN NINAS CASNEWYDD**

Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir â'r dwyrain o Druidstone Road ac i'r gogledd o draffordd yr M4 ac yn cyffinio â hi at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal ffensys amgylcheddol. (Plot 1/1a).

Rhan o dir â'r dwyrain o Druidstone Road ac i'r gogledd o draffordd yr M4 ac yn cyffinio â hi; Rhan o dir pori a rhan o lwybr troed cyhoeddus 400/10 i'r de-orllewin o Fferm New Park ac i'r de o draffordd yr M4; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir â'r dwyrain o Druidstone Road ac i'r gogledd o draffordd yr M4 ac yn cyffinio â hi at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal ffensys amgylcheddol; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir pori a choetir hynafol i'r dwyrain o Druidstone Road ac i'r de o draffordd yr M4 ac yn cyffinio â hi at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) adeiladu a chynnal ffensys amgylcheddol a ii) glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos draenio/ffos cae bresennol. (Plotiau 1/2, 1/2a, 1/2b, 1/2c, 1/2d, 1/2e, 1/2f, 1/2g, 1/2h, 1/2j).

Rhan o goetir, tir â'r gan gynnwys cebl uwchben, tir pori, trac, ffosydd a rhan o lwybrau troed cyhoeddus 400/2 a 400/11 i'r de, i'r dwyrain ac i'r de-orllewin o Fferm New Park ac i'r gogledd o draffordd yr M4; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o goetir a ffos i'r dwyrain o Druidstone Road ac i'r gogledd o draffordd yr M4 at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal ffensys amgylcheddol; Yr Hawl i fynd ac i

fynd eto ar ran o goetir a ffos i'r gorllewin o Fferm New Park ac i'r gogledd o draffordd yr M4 at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) glanhau ac ailraddio'r cwrs dŵr presennol a ii) adeiladu a chynnal draeniau newydd. (Plotiau 1/3, 1/3a, 1/3b, 1/3c, 1/3d, 1/3e, 1/3f, 1/3g, 1/3h, 1/3j, 1/3k, 1/3m, 1/3n, 1/3p, 1/3q, 1/3s).

Rhan o dir pori i'r de-orllewin o Fferm New Park ac i'r de o draffordd yr M4 ac yn cyffinio â hi; Rhan o dir pori a thrac i'r de o Fferm New Park ac i'r gogledd o'r A48 (M) ac yn cyffinio â hi; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir pori a rhan o lwybr troed cyhoeddus 400/9 i'r de o Fferm New Park ac i'r gogledd o'r A48 (M) ac yn cyffinio â hi at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol. (Plotiau 1/4, 1/4a, 1/4b, 1/4c, 1/4d, 1/4e, 1/4f, 1/4g, 1/4h, 1/4j, 1/4k).

#### **YNG NGHYMUNEDAU LLANFIHANGEL-Y-FEDW a MAERUN YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o goetir a rhan o lwybr troed cyhoeddus 399/50 i'r gogledd-ddwyrain o Wentloog Rise ac i'r de o'r A48 ac yn cyffinio â hi (M); Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o goetir, tir prysgwydd a rhan o lwybr troed cyhoeddus 399/50 i'r gogledd-ddwyrain o Wentloog Rise ac i'r de o'r A48 ac yn cyffinio â hi at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol. (Plotiau 1/5, 1/5a).

#### **YNG NGHYMUNED MAERUN YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o goetir, tir prysgwydd a rhan o lwybr troed cyhoeddus 399/50 i'r gogledd-ddwyrain o Wentloog Rise ac i'r de o'r A48; Rhan o dir pori a choetir i'r gogledd-ddwyrain o Gartref Gofal Bryn Ivor Lodge ac i'r gogledd o'r A48. (Plotiau 1/5b, 1/5c, 1/5d).

Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o goetir i'r gogledd-ddwyrain o Wentloog Rise ac i'r gogledd o'r A48 at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal pibellau draenio. (Plot 1/6).

#### **YNG NGHYMUNEDAU LLANFIHANGEL-Y-FEDW a MAERUN YN NINAS CASNEWYDD**

Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir glas sy'n rhan o Gartref Gofal Bryn Ivor Lodge i'r gogledd-ddwyrain o Wentloog Rise ac i'r de o'r A48 ac yn cyffinio â hi

(M) at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol. (Plot 1/8).

#### **YNG NGHYMUNED MAERUN YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o dir glas sy'n rhan o Gartref Gofal Bryn Ivor Lodge i'r gogledd-ddwyrain o Wentloog Rise ac i'r gogledd o'r A48; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o'r A48, mynedfa breifat i Gartref Gofal Bryn Ivor Lodge a lleiniau ymyl i'r gogledd-ddwyrain o Wentloog Rise ac i'r de o'r M48 (M) at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal pibellau draenio. (Plotiau 1/8a, 1/8b).

Rhan o dir pori a ffos i'r gogledd-ddwyrain o Wentloog Rise ac i'r de o'r A48 ac yn cyffinio â hi; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o Lôn Fferm Walk i'r gogledd-ddwyrain o Wentloog Rise ac i'r dwyrain o'r A48 ac yn cyffinio â hi at bob diben sy'n gysylltiedig â mynediad i fan trin dŵr; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir pori i'r gogledd-ddwyrain o Wentloog Rise ac i'r de o'r A48 at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal pibellau draenio. (Plotiau 1/11, 1/11a, 1/11b, 1/11c).

Rhan o'r A48 a lleiniau ymyl i'r gogledd-ddwyrain o Wentloog Rise ac i'r de o Gartref Gofal Bryn Ivor Lodge; Rhan o drac a rhan o lwybr troed cyhoeddus 399/29 i'r gogledd-ddwyrain o Gartref Gofal Bryn Ivor Lodge ac i'r gogledd o'r A48; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o'r A48 a lleiniau ymyl i'r gogledd-ddwyrain o Wentloog Rise ac i'r de o Gartref Gofal Bryn Ivor Lodge at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal pibellau draenio. (Plotiau 1/14, 1/14a, 1/14b).

#### **YNG NGHYMUNEDAU LLANFIHANGEL-Y-FEDW a MAERUN YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o dir rhandiroedd preifat i'r de-ddwyrain o Fferm New Park ac i'r gogledd-ddwyrain o Wentloog Rise; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir rhandiroedd preifat i'r de-ddwyrain o Fferm New Park ac i'r gogledd-ddwyrain o Wentloog Rise at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol. (Plotiau 1/16, 1/16a, 1/16b).

#### **YNG NGHYMUNED MAERUN YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o ardd eiddo o'r enw Spring Cottage i'r gogledd-ddwyrain o Gartref Gofal Bryn Ivor Lodge ac i'r gogledd o'r A48. (Plotiau 1/17, 1/17a).

Rhan o ardd eiddo o'r enw The Croft, adeiladau allanol, trac a rhan o lwybr troed cyhoeddus 399/29 i'r gogledd-ddwyrain o Gartref Gofal Bryn Ivor Lodge ac i'r gogledd o'r A48. (Plotiau 1/18, 1/18a, 1/18b).

**YNG NGHYMUNEDAU LLANFIHANGEL-Y-FEDW a MAERUN a CHOEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o draffordd yr M4, A48(M), ffyrdd ymuno ac ymadael, lleiniau ymyl ac argloddiau, rhan o ffordd a throshont (Pound Hill), mast ffonau, gris a gantrïau i'r de-ddwyrain o Fferm Penylan ac i'r gogledd o'r A48. (Plot 2/1).

**YNG NGHYMUNED COEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o lwybrau troed cyhoeddus 390/15, 390/17 a 390/18, coetir hynafol, tir âr, tir pori gan gynnwys cebl uwchben, trac mynediad preifat sy'n arwain at eiddo o'r enw The Conifers, eiddo preswyl, gardd ac adeiladau allanol eiddo o'r enw The Conifers, traciau a lleiniau ymyl i'r de, i'r de-ddwyrain ac i'r dwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48; Rhan o dir pori a choetir i'r de o'r A48 ac i'r de-ddwyrain o Fferm Berryhill; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir pori, trac mynediad preifat sy'n arwain at eiddo o'r enw The Conifers a lleiniau ymyl i'r de-ddwyrain ac i'r dwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48 at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal adeiledd pont; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o goetir i'r dwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48 ac yn cyffinio â hi at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) gosod a chynnal ffensys amgylcheddol a ii) gosod a chynnal pibellau draenio. (Plotiau 2/1a, 2/1b, 2/1c, 2/1d, 2/1e, 2/1f, 2/1g, 2/1h, 2/1j, 2/1k, 2/1m, 2/1n, 2/1p, 2/1q, 2/1r, 2/1s, 2/1t, 2/1u, 2/1v, 2/1w, 2/1x, 2/1y).

**YNG NGHYMUNED LLANFIHANGEL-Y-FEDW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Pound Hill a thir pori i'r de ac i'r de-ddwyrain o Fferm Penylan ac i'r gogledd o draffordd yr M4. (Plotiau 2/2, 2/2a, 2/2b, 2/2c, 2/2d, 2/2g, 2/2j).

**YNG NGHYMUNEDAU LLANFIHANGEL-Y-FEDW a CHOEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o ffordd a hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Pound Hill i'r de-ddwyrain o Fferm Penylan ac i'r gogledd o draffordd yr M4; Rhan o hanner lled y

briffordd gyhoeddus o'r enw Pound Hill i'r gogledd-ddwyrain o Quarry Cottage ac i'r gogledd o draffordd yr M4. (Plotiau 2/2e, 2/2f, 2/2h).

**YNG NGHYMUNEDAU LLANFIHANGEL-Y-FEDW a MAERUN YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o dir pori a choetir i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o'r A48. (Plot 2/3).

**YNG NGHYMUNEDAU LLANFIHANGEL-Y-FEDW a MAERUN a CHOEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Y cyfan o'r eiddo o'r enw White Cottage, gerddi ac adeiladau allanol i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o'r A48. (Plot 2/3a).

**YNG NGHYMUNED MAERUN YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o goetir ac adeilad allanol i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o'r A48. (Plotiau 2/4, 2/4a).

**YNG NGHYMUNEDAU MAERUN a CHOEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o lain ymyl i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o'r A48; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o'r A48 a lleiniau ymyl i'r de-ddwyrain o Fferm Penylan ac i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal pibellau draenio. (Plotiau 2/5a, 2/5b).

**YNG NGHYMUNED COEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o goetir a thir prysgwydd a llain ymyl i'r de ac i'r de-ddwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o'r A48 ac yn cyffinio â hi; Rhan o'r A48, llain ymyl a chilfan i'r dwyrain, i'r de-ddwyrain ac i'r gogledd-ddwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r de o Draffordd yr M4. (Plotiau 2/5f, 2/5g, 2/5h, 2/5k, 2/5m, 2/5n, 2/5p, 2/5q, 2/5r).

**YNG NGHYMUNEDAU LLANFIHANGEL-Y-FEDW a MAERUN a CHOEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Y cyfan o'r eiddo o'r enw San Remo, gerddi ac adeiladau allanol i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o'r A48. (Plot 2/6).

**YNG NGHYMUNEDAU LLANFIHANGEL-Y-FEDW a CHOEDCERNYW YN NINAS**

## **CASNEWYDD**

Rhan o eiddo o'r enw The Glen, gerddi ac adeilad allanol i'r de-ddwyrain o Fferm Penylan ac i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill. (Plot 2/7).

## **YNG NGHYMUNED COEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o ardd eiddo o'r enw The Glen i'r de-ddwyrain o Fferm Penylan ac i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill. (Plot 2/7a).

Rhan o ardd i'r de-ddwyrain o Fferm Penylan ac i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill. (Plotiau 2/8, 2/8a, 2/8b).

## **YNG NGHYMUNEDAU MAERUN a CHOEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o dir pori i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48 ac yn cyffinio â hi. (Plot 2/9).

## **YNG NGHYMUNED COEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o dir pori i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48 ac yn cyffinio â hi. (Plotiau 2/9a, 2/9b, 2/9c).

Rhan o le parcio, gardd, adeilad allanol, y cyfan o'r eiddo o'r enw Quarry Cottage, gardd a lôn i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o'r A48 ac yn cyffinio â hi. (Plotiau 2/10, 2/10a).

Rhan o dir pori a ffos i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48. (Plotiau 2/11, 2/11a, 2/11b, 2/11c).

Rhan o dir pori a ffos i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48. (Plotiau 2/12, 2/12a, 2/12b).

Rhan o dir pori i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48. (Plot 2/13).

Rhan o dir pori i'r de-ddwyrain o Fferm Penylan ac i'r gogledd-orllewin o drosbont Pound Hill. (Plotiau 2/14, 2/14a).

## **YNG NGHYMUNEDAU LLANFIHANGEL-Y-FEDW a CHOEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Pound Hill i'r de-ddwyrain o Fferm Penylan ac i'r gogledd o draffordd yr M4. (Plotiau 2/14b, 2/14c).

Rhan o goetir a thir prysgwydd i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o'r A48 ac yn cyffinio â hi. (Plot 2/15).

#### **YNG NGHYMUNED COEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o goetir a thir prysgwydd i'r de-orllewin o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o'r A48 ac yn cyffinio â hi. (Plot 2/15a).

Rhan o dir â rhan o lwybrau troed cyhoeddus 390/4 and 390/11 i'r gogledd-ddwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o Draffordd yr M4 ac yn cyffinio â hi; Rhan o dir â rhan i'r gogledd-orllewin o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o Draffordd yr M4. (Plotiau 2/16, 2/16a, 2/16b, 2/16c, 2/16d, 2/16h).

#### **YNG NGHYMUNEDAU LLANFIHANGEL-Y-FEDW a CHOEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Pound Hill i'r de-ddwyrain o Fferm Penylan ac i'r gogledd o draffordd yr M4; Rhan o hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Pound Hill i'r gogledd-ddwyrain o Quarry Cottage ac i'r gogledd o draffordd yr M4. (Plotiau 2/16e, 2/16f, 2/16g).

#### **YNG NGHYMUNED COEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o briffordd gyhoeddus o'r enw Pound Hill gan gynnwys lleiniau ymyl a rhan o dir glas a modurdy i'r de-ddwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r de o Draffordd yr M4; Y cyfan o'r eiddo o'r enw Myrtle House, gerddi, tir pori a choetir i'r dwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o'r A48 ac yn cyffinio â hi. (Plotiau 2/17, 2/17a, 2/17b).

Rhan o goetir a mynedfa breifat sy'n arwain at eiddo o'r enw Ty'n-y-brwyn Cottages, Ty'n-y-brwyn Bungalow, The Barn, Oak Barn a Ty'n-y-brwyn i'r de-ddwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48 ac yn cyffinio â hi; Rhan o fynedfa breifat sy'n arwain at eiddo o'r enw Ty'n-y-brwyn Cottages, Ty'n-y-brwyn Bungalow, The Barn, Oak Barn a Ty'n-y-brwyn a rhan o dir â rhan, SoDdGA (Gwastadeddau Gwent), ffos a rhan o lwybr troed cyhoeddus 390/14 i'r de-ddwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o goetir a mynedfa breifat sy'n arwain at eiddo o'r enw Ty'n-y-brwyn Cottages, Ty'n-y-brwyn Bungalow, The Barn, Oak Barn a Ty'n-y-brwyn i'r de-ddwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48 ac yn cyffinio â hi at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal adeiledd pont. (Plotiau 2/18, 2/18a, 2/18b, 2/18c, 2/18d, 2/18e, 2/18f,

2/18g, 2/18h, 2/18j, 2/18k, 2/18m, 2/18n, 2/18p).

Rhan o goetir ac adeilad allanol i'r dwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o'r A48. (Plot 2/19).

Rhan o dir pori, coetir a lle parcio i'r dwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o'r A48. (Plotiau 2/20, 2/20a).

Y cyfan o'r eiddo o'r enw Berryhill Cottage, gardd, adeiladau allanol, tir pori a thir prysgwydd i'r gogledd-ddwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o'r A48 ac yn cyffinio â hi; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o adeiladau allanol, tir pori a thir prysgwydd i'r gogledd-ddwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o'r A48 ac yn cyffinio â hi at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal ffensys amgylcheddol. (Plotiau 2/21, 2/21a, 2/21b).

Rhan o dir â rhan o lwybr troed cyhoeddus 390/15 i'r de-ddwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48. (Plotiau 2/22, 2/22a, 2/22b, 2/22c).

Rhan o goetir i'r dwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48 ac yn cyffinio â hi; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o goetir i'r dwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48 ac yn cyffinio â hi at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol. (Plotiau 2/23, 2/23a, 2/23b, 2/23c).

Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir prysgwydd, coetir a rhan o lwybr troed cyhoeddus 390/4 i'r gogledd-ddwyrain o drosbont Pound Hill ac i'r gogledd o Draffordd yr M4 ac yn cyffinio â hi at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal ffensys amgylcheddol. (Plot 2/24).

Rhan o dir pori i'r de-ddwyrain o Drosbont Pound Hill ac i'r de o'r A48. (Plot 2/25).

Rhan o dir pori, coetir a llain ymyl i'r de o'r A48 ac i'r gorllewin o Church Lane; Rhan o dir pori, coetir, trac mynediad preifat sy'n arwain at Fferm Berryhill, llain ymyl a rhan o lwybr troed cyhoeddus 390/17 i'r de o'r A48 ac i'r gorllewin o Church Lane ac yn cyffinio â hi; Rhan o hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Church Lane a llain ymyl i'r de o'r A48 ac i'r gogledd-ddwyrain o Glwb Golff y Parc. (Plotiau 3/1, 3/1a, 3/1b, 3/1c, 3/1d, 3/1e, 3/1f, 3/1g, 3/1h, 3/1j, 3/1k, 3/1m).

Rhan o faes ymarfer cwrs golff i'r de o'r A48 ac i'r gorllewin o Church Lane; Rhan o hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Church Lane a lleiniau ymyl i'r de o'r A48 ac i'r gogledd-ddwyrain o Glwb Golff y Parc; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o faes ymarfer cwrs golff a lle coediog i'r de o'r A48 ac i'r gorllewin o Church Lane at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal ffosydd/ffosydd cae



newydd; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o faes ymarfer cwrs golff i'r de o'r A48 ac i'r gorllewin o Church Lane ac yn cyffinio â hi at bob diben sy'n gysylltiedig â mynediad ar gyfer tirlunio a phlannu. (Plotiau 3/2, 3/2a, 3/2b, 3/2c, 3/2d, 3/2e, 3/2f, 3/2g, 3/2h, 3/2j).

Rhan o hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Church Lane, lleiniau ymyl, tir âr, tir pori, tir prysgwydd a ffos i'r de o'r A48 ac i'r gogledd-ddwyrain o Glwb Golff y Parc. (Plotiau 3/4, 3/4a, 3/4b, 3/4c, 3/4d, 3/4e, 3/4f).

Rhan o lain ymyl i'r de o'r A48 ac i'r gorllewin o Church Lane; Rhan o hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Church Lane, ffordd fynediad sy'n arwain at Barc Imperial, cylchfan, lleiniau ymyl gan gynnwys cebl uwchben, coetir, tir prysgwydd, ffos, arglawdd a rhan o lwybr troed cyhoeddus 390/22 i'r de o'r A48 ac i'r gogledd-ddwyrain o Glwb Golff y Parc. (Plotiau 3/5, 3/5a, 3/5b, 3/5c, 3/5d, 3/5e, 3/5f, 3/5g, 3/5h, 3/5j, 3/5k, 3/5m, 3/5n, 3/5p, 3/5q, 3/5r).

Rhan o dir prysgwydd, ffosydd, llain ymyl, arglawdd, pyllau, trac, tanc, pwmp a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) gan gynnwys cebl uwchben i'r de ac i'r de-ddwyrain o Barc Imperial ac i'r gogledd-ddwyrain o Tŷ Eglwys; Rhan o drac mynediad preifat sy'n arwain at is-orsaf y Grid Cenedlaethol, llain ymyl a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o Barc Imperial ac i'r gogledd o Fferm Maerdy; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o ffos, tir prysgwydd, Ffos Nant-y-moor, argloddiau a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) gan gynnwys cebl uwchben i'r de-ddwyrain o Barc Imperial ac i'r gogledd-ddwyrain o Tŷ Eglwys at bob diben sy'n gysylltiedig â glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos draenio cae bresennol. (Plotiau 4/1, 4/1a, 4/1b, 4/1c, 4/1d, 4/1e).

## **YNG NGHYMUNEDAU GWYNLLŴG a CHOEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o ffordd fynediad i Imperial Park, cylchfan, llain ymyl, arglawdd, coetir, tir prysgwydd, pwll, ffosydd, rhan o lwybr troed cyhoeddus 390/21 a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de ac i'r de-ddwyrain o Imperial Park ac i'r gogledd-ddwyrain o Tŷ Eglwys; Rhan o hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Percoed Lane, llain ymyl, ffos (Ffos Percoed) a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o Imperial Park ac i'r gogledd o Fferm Maerdy; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Percoed Lane, ffos (Ffos Percoed) a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o

Imperial Park ac i'r gogledd o Fferm Maerdy at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) adeiladu a chynnal ffosydd draenio/ffosydd cae a ii) glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos draenio/ffos cae bresennol. (Plotiau 4/2, 4/2d, 4/2t, 4/2x, 4/2y, 4/2ae, 4/2af, 4/2ag, 4/2ah, 4/2ak, 4/2am, 4/2an, 4/2aq).

## **YNG NGHYMUNED COEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o ffordd fynediad i Barc Imperial, cylchfan, llain ymyl, draeniau, arglawdd gan gynnwys cebl uwchben a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de ac i'r de-ddwyrain o Barc Imperial ac i'r gogledd-ddwyrain o Tŷ Eglwys; Rhan o drac mynediad preifat sy'n arwain at is-orsaf y Grid Cenedlaethol, hanner lled y briffordd gyhoeddus, llain ymyl, trac, tir prysgwydd gan gynnwys cebl uwchben a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de ac i'r de-ddwyrain o Barc Imperial ac i'r gogledd o Fferm Maerdy; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir prysgwydd, Ffos Nant-y-moor a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de o Barc Imperial ac i'r gogledd-ddwyrain o Tŷ Eglwys at bob diben sy'n gysylltiedig â glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos draenio bresennol; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o Ffos Nant-y-moor, tir prysgwydd, ffosydd, peilon a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o Barc Imperial ac i'r dwyrain o Tŷ Eglwys at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) adeiladu a chynnal ffosydd draenio/ffosydd cae a ii) glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos draenio/ffos cae bresennol; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir prysgwydd, trac, pont (Pont Estyll) a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o Barc Imperial ac i'r gogledd o Fferm Maerdy at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) adeiladu a chynnal ffosydd draenio/ffosydd cae a ii) glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos draenio bresennol. (Plotiau 4/2a, 4/2b, 4/2c, 4/2e, 4/2f, 4/2g, 4/2h, 4/2j, 4/2k, 4/2q, 4/2r, 4/2s, 4/2w, 4/2z, 4/2aa, 4/2ab).

## **YNG NGHYMUNED GWYNLLŴG YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o Ffos Percoed, SoDdGA (Gwastadeddau Gwent), trac, llain ymyl a hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Percoed Lane i'r de-ddwyrain o Imperial Park ac i'r gogledd o Fferm Maerdy. (Plotiau 4/2u, 4/2v, 4/2ac, 4/2ad, 4/2aj).

## **YNG NGHYMUNED COEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o Ffos Nant-y-moor, tir prysgwydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o Barc Imperial ac i'r gogledd o Fferm Maerdy at bob diben sy'n gysylltiedig â

glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos draenio/ffos cae bresennol. (Plot 4/3).

Rhan o dir coediog a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o Barc Imperial ac i'r dwyrain o Tŷ Eglwys; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir coediog, tir prysgwydd, Ffos Nant-y-moor, ffos a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de ac i'r de-ddwyrain o Barc Imperial ac i'r gogledd ac i'r gogledd-ddwyrain o Fferm Maerdy at bob diben sy'n gysylltiedig â glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos draenio/ffos cae bresennol. (Plotiau 4/4, 4/4a, 4/4b).

## **YNG NGHYMUNED GWYNLLŴG YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o hanner lled y priffyrdd cyhoeddus o'r enw Percoed Lane a Green Lane, llain ymyl, ffos gan gynnwys cebl uwchben, tir âr a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de ac i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain; Rhan o goetir a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain ac yn cyffinio â hi; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o lôn (Percoed Lane), llain ymyl a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu ffos draenio/ffos cae. (Plotiau 5/1, 5/1a, 5/1b, 5/1c, 5/1d, 5/1e, 5/1f, 5/1g, 5/1h, 5/1j, 5/1k, 5/1m).

Rhan o hanner lled y priffyrdd cyhoeddus o'r enw Green Lane a Percoed Lane, tir âr, peilon, trac mynediad preifat sy'n arwain at Fferm Maerdy gan gynnwys cebl uwchben, llain ymyl, ffos, argloddiau a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de ac i'r de-orllewin o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Percoed Lane, llain ymyl, tir âr gan gynnwys cebl uwchben a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de, i'r de-ddwyrain ac i'r de-orllewin o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal ffos draenio/ffos cae; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Green Lane, llain ymyl a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig â mynediad i fan trin dŵr. (Plotiau 5/3, 5/3a, 5/3b, 5/3c, 5/3d, 5/3e, 5/3f, 5/3g, 5/3h, 5/3j, 5/3k, 5/3m, 5/3n, 5/3p, 5/3q, 5/3r, 5/3s, 5/3t, 5/3u, 5/3v, 5/3w, 5/3x, 5/3y, 5/3z, 5/3aa, 5/3ab, 5/3ac, 5/3ad, 5/3ae, 5/3af, 5/3ag, 5/3ah, 5/3aj, 5/3ak, 5/3am, 5/3an, 5/3ap, 5/3aq, 5/3ar, 5/3as, 5/3at,

5/3au, 5/3av, 5/3aw, 5/3ax, 5/3ay, 5/3az, 5/3ba, 5/3bb, 5/3bc, 5/3bd, 5/3be, 5/3bf, 5/3bg, 5/3bh).

## **YNG NGHYMUNEDAU GWYNLLŴG a CHOEDCERNYW YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o lain ymyl, tir prysgwydd, trac a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r dwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain. (Plot 5/4).

## **YNG NGHYMUNED GWYNLLŴG YN NINAS CASNEWYDD**

Rhan o a hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Green Lane, tir âr, tir pori, ffosydd, llain ymyl, arglawdd, llwybr heb rif a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir âr, coetir, hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Green Lane, llain ymyl, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd a'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal ffos draenio/ffos cae; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir âr, ffosydd, llwybr heb rif a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) adeiladu a chynnal ffos draenio/ffos cae a ii) glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos/ffos cae bresennol. (Plotiau 5/5, 5/5a, 5/5b, 5/5c, 5/5d, 5/5e, 5/5f, 5/5g, 5/5h, 5/5j, 5/5k, 5/5m, 5/5n, 5/5p, 5/5q, 5/5r, 5/5u, 5/5v, 5/5w, 5/5y).

Rhan o dir pori, ffos a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain ac yn cyffinio â hi; Rhan o dir pori, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir pori, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) adeiladu a chynnal ffos draenio/ffos cae a ii) glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos/ffos cae bresennol. (Plotiau 5/6, 5/6a, 5/6b, 5/6c, 5/6d, 5/6e, 5/6f).

Rhan o goetir, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain ac yn cyffinio â hi; Rhan o dir pori, ffos a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y

Grid Cenedlaethol ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o goetir, tir pori, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal ffos draenio/ffos cae; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o goetir, ffos a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig â glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos/ffos cae bresennol. (Plotiau 5/7, 5/7a, 5/7b, 5/7c, 5/7d, 5/7e, 5/7f, 5/7g).

Rhan o dir rheilffordd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd-ddwyrain o Green Lane; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o rheilffordd (prif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain) a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r gogledd-ddwyrain o Green Lane at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal adeiledd pont. (Plotiau 5/8, 5/8a, 5/8b).

Rhan o dir âr, tir pori, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r dwyrain ac i'r de-ddwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain; Rhan o dir âr, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r dwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain ac yn cyffinio â hi; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir âr, tir pori, ffos a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r dwyrain o is-orsaf y Grid Cenedlaethol ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) adeiladu a chynnal ffos draenio/ffos cae a ii) glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos/ffos cae bresennol. (Plotiau 5/9, 5/9a, 5/9b, 5/9c, 5/9d, 5/9e, 5/9f, 5/9g, 5/9h, 5/9j, 5/9k).

Rhan o dir prysgwydd, ffos a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-orllewin o Fferm New Dairy ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir prysgwydd, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-orllewin o Fferm New Dairy ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) adeiladu a chynnal ffos draenio/ffos cae a ii) glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos/ffos cae bresennol. (Plotiau 6/2, 6/2a, 6/2b, 6/2c, 6/2d).

Rhan o dir pori, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-orllewin o Fferm New Dairy ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir pori, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-orllewin o Fferm New Dairy ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) adeiladu a

chynnal ffos draenio a ii) glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos/ffos cae bresennol. (Plotiau 6/3, 6/3a, 6/3b, 6/3c, 6/3d).

Rhan o dir pori, tir prysgwydd, tir glas gan gynnwys cebl uwchben, gardd, mynedfa breifat sy'n arwain at Fferm Fair Orchard, ffosydd, llain ymyl a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-orllewin o Fferm New Dairy ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain; Rhan o hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Lighthouse Road y B4329, tir pori, ffos, trac, llain ymyl gan gynnwys cebl uwchben, rhan o fynedfa breifat i eiddo o'r enw Fferm Fair Orchard a Fferm Whitecross, rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol 88 Cymal 881 a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r gorllewin ac i'r gogledd-orllewin o Fferm New Dairy ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain; Rhan o dir pori, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r gogledd-orllewin o Fferm New Dairy ac i'r gorllewin o Afon Ebwy; Rhan o dir pori gan gynnwys cebl uwchben, rhan o hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Lighthouse Road y B4329, rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol 88 Cymal 881, tir prysgwydd, ffosydd, trac, lleiniau ymyl a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r gogledd-orllewin o Fferm New Dairy ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain; Rhan o dir pori a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r gogledd-ddwyrain o Fferm New Dairy ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain; Rhan o dir pori, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r gogledd-ddwyrain o Fferm New Dairy ac i'r gorllewin o Afon Ebwy; Rhan o dir pori a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r gogledd-orllewin o Fferm New Dairy ac i'r gorllewin o Afon Ebwy; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir pori, ffos a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-orllewin o Fferm New Dairy ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig â glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos/ffos cae bresennol; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir pori, tir prysgwydd, trac, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r de-orllewin o Fferm New Dairy ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal ffensys amgylcheddol; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir pori, tir prysgwydd, trac, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r gorllewin o Fferm New Dairy ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) adeiladu a chynnal ffensys amgylcheddol a ii) adeiladu a chynnal ffos draenio/ffos cae a iii) glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos/ffos cae bresennol iv) mynediad i adeiladu a chynnal ffos draenio/ffos cae; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir pori gan gynnwys cebl uwchben, tir prysgwydd, trac, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r gogledd-orllewin o Fferm New Dairy ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain at bob diben sy'n gysylltiedig ag i)

adeiladu a chynnal ffosydd/ffosydd cae newydd a ii) glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos/ffos cae bresennol a iii) adeiladu a chynnal ffensys amgylcheddol; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir pori, ffos a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r gogledd ac i'r gogledd-orllewin o Fferm New Dairy ac i'r gorllewin o Afon Ebwy at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) adeiladu a chynnal ffos draenio/ffos cae a ii) glanhau, lledu, dyfnhau a chynnal ffos/ffos cae bresennol; Yr Hawl i fynd ac i fynd eto ar ran o dir pori, ffosydd a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r gogledd-ddwyrain o Fferm New Dairy ac i'r gorllewin o Afon Ebwy at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) adeiladu a chynnal ffos draenio/ffos cae a ii) adeiladu a chynnal ffensys amgylcheddol. (Plotiau 6/4, 6/4a, 6/4b, 6/4c, 6/4d, 6/4e, 6/4f, 6/4g, 6/4h, 6/4j, 6/4k, 6/4m, 6/4n, 6/4p, 6/4q, 6/4r, 6/4s, 6/4t, 6/4u, 6/4v, 6/4w, 6/4x, 6/4y, 6/4z, 6/4aa, 6/4ab, 6/4ac, 6/4ad, 6/4ae, 6/4af, 6/4ag, 6/4ah, 6/4aj, 6/4ak, 6/4am, 6/4an, 6/4ap, 6/4aq, 6/4ar, 6/4as, 6/4at, 6/4au, 6/4av, 6/4ax, 6/4ay, 6/4az, 6/4ba, 6/4bb, 6/4bc, 6/4bd, 6/4be, 6/4bf, 6/4bg, 6/4bh, 6/4bj, 6/4bk, 6/4bm, 6/4bn, 6/4bp, 6/4bu, 6/4bv, 6/4bw, 6/4by, 6/4bz, 6/4ca, 6/4cb, 6/4cc, 6/4cd, 6/4ce).

Rhan o ardd a mynedfa breifat eiddo o'r enw Fferm Whitecross, hanner lled y briffordd gyhoeddus o'r enw Lighthouse Road y B4329, llain ymyl gan gynnwys cebl uwchben, rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol 88 a SoDdGA (Gwastadeddau Gwent) i'r gorllewin ac i'r gogledd-orllewin o Fferm New Dairy ac i'r de o brif Linell Rheilffordd De Cymru i Lundain. (Plotiau 6/6, 6/6a, 6/6b, 6/6c).

